

I ddod

- **CYMDEITHAS LLANSANNAN** – Sgwrs a chân hefo Arfon Wyn: "Fy nghaneuon i Gymru" nos Lun, Ionawr 21ain yn Ffestri Capel Coffa Henry Rees.
- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Rhewl nos Iau, Ionawr 24ain. Pwyllgor Gwaith am 4.30, a Gwaith yr Henaduriaeth a throsglwyddo'r Llywyddiaeth am 6.00.
- **PENWYTHNOS PLANT GOFALAETH BRO ALED (8–12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 1^{af} – 3^{ydd}. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob plentyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Bydd angen anfon ffurflen ganiatâd i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan â phosibl.
- **PENWYTHNOS IEUENCTID (BL. 7-11)** yng Ngholeg y Bala, Mawrth 1af – 3ydd. Yma eto, cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Gallwch archebu lle trwy fynd i wefan colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg.
- **LLANW** – Bydd gŵyl Gristnogol Llanw yn cael ei chynnal yn Ninbych y Pysgod yn 2019 a hynny rhwng Ebrill 22ain – 25ain. Cynhelir prif ddigwyddiadau'r ŵyl yn Neuadd Ysgol Greenhill, ac mae nifer cyfyngedig o garafannau ar gael i'w llogi ar safle Kiln Park, Dinbych y Pysgod. Pum munud o daith yn y car sydd i'r ysgol o safle gwyliau Kiln Park, a phum munud o ganol tref Dinbych y Pysgod. Cynhelir oedfa bob bore a phob nos yn Neuadd Ysgol Greenhill, ac fe fydd cyfle i fanteisio ar gyfleusterau safle gwyliau Kiln Park yn ystod y dydd, mynychu seminarau neu i fynd am dro i ymweld â llwybrau a thraethau prydferth Sir Benfro. Wedi oedfa'r nos bydd cyfle i ymuno mewn gweithgareddau anffurfiol pellach neu gyfle i ymlacio a chymdeithasu dros baned o de. Mi fydd darpariaeth lawn ar gyfer y plant gydol yr wythnos, clybiau yn ystod y gwasanaethau, a rhyddid i fwynhau gweithgareddau eraill yn y prynhawn. Bydd yn ŵyl deuluol ar gyfer holl deulu Crist. Gall unigolyn rhwng 14 a 17 mlwydd oed fynychu'r ŵyl heb eu rhieni os yw Capel neu Warchodwr yn gyfrifol amdano(i). Ewch i'r wefan www.llanw.org i archebu ac/neu am fwy o fanylion.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Ionawr 6^{ed} a 13^{eg}, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a blwyddyn newydd dda i bawb ohonoch! Ar gychwyn blwyddyn arall gallwn unwaith yn rhagor ddiolch i Dduw am ei ffyddlondeb dros y flwyddyn aeth heibio. Hyd yn oed os fu 2018 yn gyfnod anodd i ni yn bersonol, gallwn barhau i bwyso ar addewidion hyfryd yr Arglwydd sydd â gofal dros ei bobl (1 Pedr 5:7), ac ymddiried yn y Bugail Da sy'n gwarchod ei braidd i dragwyddoldeb.

Eleni byddwn yn cofio cant a hanner o flynyddoedd ers marwolaeth Henry Rees, un o arweinwyr Cristnogol Cymru yn ei gyfnod, ac un o deulu enwog Chwibren, Llansannan! Ac yn sgil hyn rydym am gychwyn y flwyddyn trwy ystyried testun un o bregethau Henry Rees sy'n addas iawn ar gyfer Llais Bro Aled cyntaf 2019 - Salm 90:12 'Felly dysg ni i gyfrif ein dyddiau, inni gael calon ddoeth.'

Yn y bregeth hon mae Rees yn nodi mor hawdd yw hi i ddynion a merched o bob oed fyw eu bywydau fel pe bai dim diwedd i ddod. Er cymaint o rybuddion a gawn yn y Beibl mor fyr yw ein hoes, ac mor frawychus yw marwolaeth pan ddown ar ei draws, ein tuedd naturiol yw gwneud cymaint â phosibl i anwybyddu'r cwestiynau dwys ynglŷn â bywyd wedi marwolaeth. Yn wir mae'n diwylliant cyfoes ni'n annog y fath agwedd gan honni nad oes digon o dystiolaeth wyddonol am faterion o'r fath.

Ond nid felly mae'r Duw tragwyddol yn siarad â'i bobl. Diolchwn nad oes gennym Arglwydd sy'n brwsio pethau anodd o dan y carped! Yn hytrach nag osgoi trafod yr elfennau poenus a dryslyd o'n bodolaeth, mae'r Beibl yn rhoi goleuni i ni arnynt gan gyhoeddi gobaith i gredinwyr ar sail cariad rhyfeddol Duw. Ac wrth gwrs yn lesu Grist gwelwn Achubwr a brofodd farwolaeth ac atgyfodiad drosto'i hun. 'Ond, y gwir ydy bod y Meseia wedi'i godi yn ôl yn fyw! Mae e fel y ffrwyth cyntaf i ymddangos adeg y cynhaeaf – fe ydy'r cyntaf o lawer sy'n mynd i gael eu codi.' (1 Corinthiaid 15:20 beibl.net)

Felly ydym ni'n barod i dderbyn tystiolaeth Gair Duw a geiriau Iesu am fywyd tragwyddol? Ydi gwirioneddau'r Beibl am gael effaith ar y ffordd yr ydym yn wynebu bob diwrnod – boed hynny ar ddechrau blwyddyn newydd neu beidio? Dyna arweiniad Salm 90:12 i ni. Os bydd ansicrwydd pryd yn union y bydd rhywun yn glanio ar ein haelwyd, bydd y doeth yn paratoi ar fyrder yn hytrach na llaesu dwylo. Yr un egwyddor sy'n bodoli ynglŷn â'n bywyd a'n perthynas gyda'r Arglwydd. Wrth i ni ystyried y geiriau hyn, gofynnwn am gymorth Duw i wneud y mwyaf o'r amser a gawn trwy ddod mewn ffydd at Grist, a byw'n bywydau gan ddibynnu'n llwyr arno Ef.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 6^{ed} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 9^{fed} ➤ **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
- Iau – 10^{fed} ➤ **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.
-
- Sul nesaf – 13^{eg} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 16^{eg} ➤ **Moli** – Noson anffurfiol i addoli ac astudio yng Nghefn Meiriadog am 7.30. Croeso i bawb.
- Iau – 17^{eg} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
-
- Sul canlynol – 20^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Rhodri yn pregethu.

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

- Sul yma – 6^{ed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.
- Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa am 11.00. Ni fydd Ysgol Sul i'r plant.
- Mawrth – 8^{fed} ➤ Cinio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Mercher – 9^{fed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) erbyn dydd Sul (6^{ed}), os gwelwch yn dda.
-
- Sul nesaf – 13^{eg} ➤ Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa.
- Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa **yng Nghefn Meiriadog** (*sylwch ar y newid lleoliad*) am 11.00 a bydd yr Ysgol Sul yno am 10.00.
- Mawrth – 15^{fed} ➤ Croeso i chi ddod am 'Baned a Sgwrs' yn Ffestri Llansannan o 1.30-3.30.
- Mercher – 16^{eg} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) erbyn dydd Sul (13^{eg}), os gwelwch yn dda.
-
- Sul canlynol – 20^{fed} ➤ Bydd Mr Gwion Dafydd yn arwain oedfa i'r daith (Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair) **yng Nghefn Meiriadog am 10.30.**

Cyhoeddiadau

Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – 6^{ed} ➤ Bydd Mr Gwion Dafydd yn arwain oedfa i'r daith (Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes) **yng Nghefn Berain am 10.30.**
- Llun – 7^{fed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi'r Chwiorydd yng Nghefn Berain am 7.00.
- Mercher – 9^{fed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn yng Nghapel Groes am 7.00.
-
- Sul nesaf – 13^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Henllan am 9.30 ac oedfa gymun yn Llanefydd am 11.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00.
- Gwener – 18^{fed} ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) erbyn dydd Sul (13eg), os gwelwch yn dda. Croeso i bawb.
-
- Sul canlynol – 20^{fed} ➤ Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 9.30 a Chyfarfod Gweddi yn Groes am 9.30.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Berain am 11.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.

Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – 6^{ed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi ym Mheniel am 10.00 a'r un modd yn Nantglyn am 2.00. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel yn dilyn oedfa'r bore.
-
- Sul nesaf – 13^{eg} ➤ Cynhelir oedfa i'r daith (Peniel, Saron a Nantglyn) yn Saron am 10.00.
-
- Sul canlynol – 20^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.